



## Cyngor Tref TREGARON Town Council

Clerc/Clerk: Fflur Lawlor

E-bost/E-mail: [clerc@cyngor-tregaron-council.org.uk](mailto:clerc@cyngor-tregaron-council.org.uk)

Ffôn symudol/Mobile: 07891677597

### Cyfarfod mis Gorffennaf Cyngor Tref Tregaron / Tregaron Town Council July Meeting

Nos Lun / Monday 18.09.2023

7.30yh/pm – yn Neuadd Goffa Tregaron / Memorial Hall

### COFNODION CYFARFOD CYNGOR MIS MEDI / SEPTEMBER COUNCIL MEETING MINUTES

Eitem / Item	Gweithred / Action
<p>1. <b>CROESO / WELCOME</b> Croesawodd y Cadeirydd pawb i'r cyfarfod. <i>The Chair welcomed everyone to the meeting.</i></p> <p>PRESENNOL / PRESENT: Cyng/Cllr Arwel Jones (Cadeirydd / Chair) Catherine Hughes, Rhian Jones, Dafydd Richards, Sian Jones &amp; Dewi Evans.</p> <p>Clerc / Clerk – Fflur Lawlor</p> <p>Cyng/Cllr Ifan Davies, Aelod Lleol Cyngor Sir Ceredigion County Council Local Member</p>	
<p>2. <b>YMDDIHEURIADAU / APOLOGIES</b> Cyng/Cllr Rhydian Wilson, Owain Pugh, Rhian Hughes. Gwion James.</p>	
<p>3. <b>DATGAN DERBYN SWYDD / DECLARATION OF PERSONAL INTEREST</b> Ni allai Gwion James fod yn bresennol yn y cyfarfod. Gwneir hyn yng nghyfarfod mis Hydref. <i>Gwion James could not be present at the meeting. This will be done at the October meeting.</i></p>	
<p>4. <b>MATERION PERSONOL / PERSONAL MATTERS</b> Llongyfarchiadau i'r Cyng. Dewi Evans a'r teulu ar enedigaeth mab yn ddiweddar. <i>Congratulations to Cllr. Dewi Evans and family on the birth of a son recently.</i></p>	
<p>5. <b>ADRODDIAD YR HEDDLU / POLICE REPORT</b> Roedd PSCO John Evans yn bresennol yn y cyfarfod – cwpwl o bethau i'w adrodd dros y mis diwethaf.</p> <p>Mae cŵn yn rhydd o amgylch y dref, yn enwedig ger y parc ac yn achosi pryder i drigolion. PSCO Evans i ymweld â'r perchnogion a'r Cyng. Ifan Davies i gysylltu â Warden Cŵn yr Awdurdod Lleol.</p> <p><i>PSCO John Evans was present at the meeting – couple of things to report from the last month.</i></p> <p><i>There are stray dogs around town, especially by the park, causing concern to residents. PSCO Evans to visit the owners and Cllr Ifan Davies to contact the Local Authority Dog Warden.</i></p>	PSCO John Evans & Cyng/Cllr Ifan Davies
<p>6. <b>DATGELU BUDDIANNAU PERSONOL / DECLARATION OF PERSONAL INTEREST</b></p>	

CADEIRYDD / CHAIRMAN

	Dim i'w gofnodi / <i>Nothing to report</i>	
7.	<p><b>CADARNHAU COFNODION / APPROVAL OF MINUTES FROM 17/07/23</b>  Cytunwyd bod y cofnodion yn rhai cywir.  <i>It was agreed that this was a true record of the minutes.</i></p> <p>Cynnig/<i>Proposed</i>: Cyng/Cllr Catherine Hughes  Eilio/<i>Seconder</i>: Cyng/Cllr Rhian Jones</p>	
8.	<p><b>MATERION YN CODI O'R COFNODION / MATTERS ARISING FROM MINUTES</b>  18.2 –  Gwaith celf 'Cylch Cerrig' gan yr artist lleol Gwawr Yim-Jones –  Dywedodd y Cyng Sian Jones nad oes neb wedi bod mewn cysylltiad â Gwawr i drafod hyn.</p> <p><i>Artwork of the 'Cylch Cerrig' by local artist Gwawr Yim-Jones – Cllr Sian Jones mentioned that no one has been in contact with Gwawr to discuss this.</i></p>	
9.	<p><b>CYNGOR SIR CEREDIGION COUNTY COUNCIL</b></p> <p>A) Gwybodaeth a dderbyniwyd wrth CSC / <i>Information received from CCC –</i></p> <p>Ebyst wedi cael eu danfon ymlaen at y Cynghorwyr cyn y cyfarfod / <i>Emails forwarded to Councillors prior to meeting.</i></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• 18/07/2023 – Ceredigion Local Nature Partnership Meeting</li> <li>• 08/08/2023 – Cau Ffordd Dros Dro / <i>Temporary Road Closure: B4343 Pontrhydfendigaid</i></li> <li>• 30/08/2023 – Cau Ffordd Dros Dro / <i>Temporary Road Closure: A485/U1504 Tregaron</i></li> <li>• 05/09/2023 – Cau Ffordd Dros Dro / <i>Temporary Road Closure: C1240 Tregaron</i></li> <li>• 07/09/2023 – Hysbysiad o Ddigwyddiadau Ymgynghori Cyhoeddus Ardaloedd Cadwraeth Ceredigion / <i>Notice of Ceredigion Conservation Areas Public Consultation Events</i></li> <li>• 15/09/2023 – Ymgynhoriad CSGA – <i>WESP Consultation</i></li> <li>• 16/09/2023 – Gwerthusiadau Drafft Ardal Gadwraeth Ceredigion – ar gyfer Ymgynghori / <i>Ceredigion Conservation Area Draft Appraisals – for Consultation</i></li> <li>• 18/09/2023 – Digwyddiadau Arbennig a Chymunedol / <i>Special and Community Events</i></li> </ul> <p>B) Diweddariad gan yr Aelod Lleol / <i>Update from the Local Member, Cyng/Cllr Ifan Davies –</i></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae cyfarfod o'r is-bwyllgor i drafod yr arian o werthiant yr Hen Ysgol wedi ei gynnal. Hoffent i'r arian gael ei ddefnyddio tuag at gae chwaraeon pob tywydd ar dir yr ysgol. Bydd yr argymhelliad nawr yn cael ei rhoi o flaen y Bwrdd Ymddiriedolwyr y Cyngor a fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol. Mae unrhyw ddatblygiadau yn dibynnu ar sicrhau cyllid ychwanegol sylweddol.</li> </ul> <p><i>Meeting of the sub-committee to discuss the money from the sale of the Old School has been held. They would like the money to be used towards an all-weather sport pitch in the school grounds. The recommendation will now be taken back to the trustee board within the Council who will make the final decision. Any developments depend on securing substantial extra funding.</i></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cylch Caron – arian wedi neilltuo tuag at y prosiect / <i>money has been allocated towards the project.</i></li> </ul>	

<p>10.</p>	<p><b>CYFRIFON / FINANCIAL MATTERS</b></p> <p>9.1 – Balans y Banc Awst / August Bank Balance –</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cyfrif Busnes Cyfredol / Business Current – £20,075.62</li> <li>• Cyfrif Busnes wrth gefn / Business Reserve – £17,061.91</li> <li>• Cyfrif Busnes wrth gefn / Business Current (Cadeirydd / Chairman) – £3,947.90</li> <li>• Cyfrif Busnes wrth gefn / Business Reserve (Gratuity) – £483.40</li> </ul> <p>Balans y Banc Medi/ September Bank Balance –</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cyfrif Busnes Cyfredol / Business Current – £18,674.99</li> <li>• Cyfrif Busnes wrth gefn / Business Reserve – £17,082.22</li> <li>• Cyfrif Busnes wrth gefn / Business Current (Cadeirydd / Chairman) – £3,947.90</li> <li>• Cyfrif Busnes wrth gefn / Business Reserve (Gratuity) – £498.97</li> </ul> <p>9.2 –</p> <p><u>Taliadau mis Awst / August payments –</u></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cyflog Gweithiwr Strydlun / Streetscene worker salary £324.98</li> <li>• Cyflog y Clerc / Clerk salary £301.70</li> <li>• HMRC Mis Awst/ August £156.80</li> <li>• D Benjamin (Torri Cae y Parc / Parc Field Grass Cutting) £120.00</li> <li>• Gwe Cambrian (Hosting &amp; Domain) £196.79</li> </ul> <p><u>Taliadau mis Medi / September payments –</u></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cyflog Gweithiwr Strydlun / Streetscene worker salary £333.40</li> <li>• Cyflog y Clerc / Clerk salary £301.70</li> <li>• HMRC Mis Medi / September £158.80</li> </ul> <p>Cynnig/Proposed: Cyng/Cllr Dewi Evans Eilio/Seconder: Cyng/Cllr Sian Jones</p> <p>9.3 – Incwm / Income –</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• 28.07.2023 - £7,333.33 Praesept 2 / Precept 2 2023/24</li> <li>• Siec – Cheque - £14.64 Wayvale</li> </ul> <p>9.4 – Archwilio Cymru – Cyfrifon 2022/2023 wedi ei gyflwyno ar 24.07.23 Audit Wales – 2022/2023 Accounts submitted on 24.07.23</p>	<p>Clerc / Clerk</p>
<p>11.</p>	<p><b>ADRODDIAD Y GWEITHIWR STRYDLUN / STREET SCENE WORKER'S REPORT</b></p> <p>Dim i'w gofnodi.</p> <p>Mae angen gwneud y canlynol -</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Glanhau prif strydoedd y dref yn wythnosol - Pentre, Sgwâr, Ffordd yr Orsaf, Stryd y Capel, Heol Pontrhydefendigaid.</li> <li>• Glanhau strydoedd eraill yn eu tro.</li> </ul> <p>Clerc i ofyn i'r Gweithiwr Gwasanaethau Stryd glirio'r 2 lwybr o Ffordd Dewi i Doldre.</p> <p><i>Nothing to report.</i></p>	<p>Clerc / Clerk</p>

	<p><i>The following needs to be done –</i></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• <i>Main streets of the town to be cleaned weekly – Pentre, Square, Station Road, Chapel Street, Pontrhydfendigaid Road.</i></li> <li>• <i>Other streets to be cleaned in rotation.</i></li> </ul> <p><i>Clerk to ask the Street Scene Worker to clear the 2 paths from Dewi Road to Doldre.</i></p>	
12.	<p><b>ADRODDIADAU IS-BWYLLGORAU / SUB-COMMITTEES REPORTS</b></p> <p><b>12.1 <u>Is-bwyllgor Parc a Blodau / Park &amp; Flowers</u></b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Gwiriadau bob pythefnos lechyd a Diogelwch y Parc i barhau - bydd y Cyng Rhian Jones yn cynnal y gwiriadau yn Medi/Hydref. Gwiriadau bob pythefnos i'w wneud dros yr Hydref. Diolchwyd i Cyng Rhian Hughes &amp; Owain Pugh am wneud mis diwethaf.</li> </ul> <p><i>Fortnightly Health &amp; Safety checks of the Park to continue – Cllr Rhian Jones will carry out the checks for September/October. Fortnightly checks to be carried out over the Autumn. Thanks was extended to Cllr Rhian Hughes &amp; Owain Pugh for doing last month.</i></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae ychydig o bethau sydd angen eu trwsio yn y parc yn enwedig y ganolfan weithgareddau – Clerc i gysylltu â saer lleol i gael dyfynbris.</li> </ul> <p><i>There are a few things that needs to be fixed at the park , especially the activity centre – Clerk to contact a local carpenter to get a quote</i></p> <p>Cynnig/Proposed: Cyng/Cllr Catherine Hughes Eilio/Seconder: Cyng/Cllr Sian Jones</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Clerc i gysylltu â Robert's Garden Centre i ofyn am bris i blannu cennin pedr yn y planwyr ar draws y dref.</li> </ul> <p><i>Clerk to contact Robert's Garden Centre to ask for a quote to plant daffodils in the planters accros town.</i></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cafwyd trafodaeth ynglŷn â phrydles yr Ardd Gymunedol a Chae'r Parc gan CSC - Clerc wedi ceisio cysylltu â'r adran berthnasol sawl tro ond heb gael ateb. Clerc i anfon ar drywydd e-bost at y Cyng. Ifan Davies i gysylltu â'r adran berthnasol am ddiweddariad.</li> </ul> <p><i>Discussion was held regarding the lease from CCC for the Community Garden and Park Field - Clerk has tried to contact the relevant department several times but has had no reply. Clerk to forward on email trail to Cllr Ifan Davies to contact the relevant department for an update.</i></p> <p><b>12.2 <u>Dathliadau'r Nadolig / Christmas Celebration</u></b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Is bwyllgor i gwrdd i drafod y trefniadau / Sub-committee to meet to discuss the arrangements. Mae'r Clerc wedi cyflwyno cais Cau Ffordd i CSC ar gyfer y Sgwâr ar gyfer y digwyddiad ar 01.12.23.</li> </ul> <p><i>Sub-committee to meet to discuss the arrangements.</i></p>	<p>Cyng/Cllr Rhian Jones</p> <p>Clerc / Clerk</p> <p>Clerc / Clerk</p> <p>Clerc / Clerk</p> <p>Cyng/Cllr Ifan Davies</p> <p>Cyng/Cllr Arwel Jones, Rhian Jones,</p>

	<p><i>The Clerk has submitted a Road Closure application to CCC for the Square for the event on 01.12.23.</i></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Aelodau'r is-bwyllgor – Cyng Arwel Jones, Rhian Jones, Sian Jones, Owain Pugh. <i>Members of the sub-board – Cllr Arwel Jones, Rhian Jones, Sian Jones, Owain Pugh.</i></li> <li>• Cyng Rhian Jones i ofyn i Teifi Toasties i i fynychu y digwyddiad ar 1/12/23 <i>Cllr Rhian Jones to ask Teifi Toasties to attend the event on 1/12/23</i></li> <li>• Clerk i gysylltu â T.Edwards i ofyn am bris i osod golau Nadolig y dref. <i>Clerk to contact T.Edwards to ask for a price to install the town lights.</i></li> </ul> <p>12.3 <u>Sul y Cofio / Remembrance Sunday</u></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae Gwasanaeth Sul y Cofio ar 12/11/23. Cyng Arwel Jones a'r Cyng Rhydian Wilson i drefnu. <i>Remembrance Sunday Service is on 12/11/23. Cllr Arwel Jones and Cllr Rhydian Wilson to arrange.</i></li> </ul>	<p>Sian Jones, Owain Pugh</p> <p>Clerc / Clerk</p> <p>Cyng/Cllr Arwel Jones &amp; Rhydian Wilson</p>																								
13.	<p><b>PROSIECTAU I'R DYFODOL / FUTURE PROJECTS</b></p> <p>Prif flaenoriaethau'r Cyngor Tref yw / <i>The Town Council's main priorities are -</i></p> <ol style="list-style-type: none"> <li>1) Llwybr Ystwyth / <i>Ystwyth Trail</i></li> <li>2) Berllan Brennig</li> <li>3) Cae pob tywydd &amp; Trac Rhedeg / <i>All weather pitch &amp; Running Track</i></li> <li>4) Stondinau beiciau &amp; Ffynhonnau dŵr / <i>Bike stands / Water fountains</i></li> <li>5) Gardd Gymunedol / <i>Community Garden</i></li> <li>6) Prosiect Peilot Cau Sgwâr / <i>Square Closure Pilot project</i></li> </ol> <p>Clerc wedi drafftio Cynllun Prosiectau'r Dyfodol – Cyngorwyr i gymryd cyfrifoldeb am un prosiect ac arwain –</p> <p><i>Clerk has drafted a Future Projects Plan – Councillors to take responsibility for one project and lead –</i></p> <table border="1" data-bbox="151 1370 1337 2004"> <thead> <tr> <th></th> <th>Prosiect / Project</th> <th>Pwy / Who</th> <th>Diweddariad / Update</th> </tr> </thead> <tbody> <tr> <td>1.</td> <td>Llwybr Ystwyth / <i>Ystwyth Trail</i></td> <td>Cyng/Cllr Arwel Jones &amp; Dewi Evans</td> <td>Ar waith <i>Ongoing</i></td> </tr> <tr> <td>2.</td> <td>Berllan Brennig</td> <td>Cyng/Cllr Rhydian Wilson</td> <td>Wedi cwrdd gyda CNC <i>Has met with NRW</i></td> </tr> <tr> <td>3.</td> <td>Stondinau beiciau &amp; Ffynhonnau dŵr / <i>Bike stands / Water fountains</i></td> <td>Cyng/Cllr Arwel Jones &amp; Clerc/Clerk</td> <td>Ar waith <i>Ongoing</i></td> </tr> <tr> <td>4.</td> <td>Gardd Gymunedol / <i>Community Garden</i></td> <td>Cyng/Cllr Rhian Hughes</td> <td>Aros am y brydles gan CSC <i>Waiting for the lease from CCC</i></td> </tr> <tr> <td>5.</td> <td>Map o'r dref / <i>Town Map</i></td> <td>Cyng/Cllr Catherine Hughes</td> <td>Ar waith – pawb yn hapus gyda'r dyluniad</td> </tr> </tbody> </table>		Prosiect / Project	Pwy / Who	Diweddariad / Update	1.	Llwybr Ystwyth / <i>Ystwyth Trail</i>	Cyng/Cllr Arwel Jones & Dewi Evans	Ar waith <i>Ongoing</i>	2.	Berllan Brennig	Cyng/Cllr Rhydian Wilson	Wedi cwrdd gyda CNC <i>Has met with NRW</i>	3.	Stondinau beiciau & Ffynhonnau dŵr / <i>Bike stands / Water fountains</i>	Cyng/Cllr Arwel Jones & Clerc/Clerk	Ar waith <i>Ongoing</i>	4.	Gardd Gymunedol / <i>Community Garden</i>	Cyng/Cllr Rhian Hughes	Aros am y brydles gan CSC <i>Waiting for the lease from CCC</i>	5.	Map o'r dref / <i>Town Map</i>	Cyng/Cllr Catherine Hughes	Ar waith – pawb yn hapus gyda'r dyluniad	
	Prosiect / Project	Pwy / Who	Diweddariad / Update																							
1.	Llwybr Ystwyth / <i>Ystwyth Trail</i>	Cyng/Cllr Arwel Jones & Dewi Evans	Ar waith <i>Ongoing</i>																							
2.	Berllan Brennig	Cyng/Cllr Rhydian Wilson	Wedi cwrdd gyda CNC <i>Has met with NRW</i>																							
3.	Stondinau beiciau & Ffynhonnau dŵr / <i>Bike stands / Water fountains</i>	Cyng/Cllr Arwel Jones & Clerc/Clerk	Ar waith <i>Ongoing</i>																							
4.	Gardd Gymunedol / <i>Community Garden</i>	Cyng/Cllr Rhian Hughes	Aros am y brydles gan CSC <i>Waiting for the lease from CCC</i>																							
5.	Map o'r dref / <i>Town Map</i>	Cyng/Cllr Catherine Hughes	Ar waith – pawb yn hapus gyda'r dyluniad																							

			<i>Ongoing – everyone happy with the design</i>	
6.	Gwefan i'r dref a'r Bwrdd Digidol / <i>Town Website &amp; Digital Board</i>	Cyng/Cllr Rhydian Wilson & Clerc/Clerk	Ar waith <i>Ongoing</i>	
7.	Ffynnon Garon	Cyng/Cllr Rhian Jones & D. Roberts	Ar waith <i>Ongoing</i>	
8.	Biniau Graean – gwirio a llenwi yn mis Medi-Hydref / <i>Grit Bins – check &amp; fill in September-October</i>	Cyng/Cllr Owian Pugh & Dewi Evans	Ar waith <i>Ongoing</i>	
<p><u>2. Berllan Breninig</u> Cyfarfod i'w drefnu ar 20/11/23 am 6.30pm-7.30pm gyda thrigolion Pentre Isaf a'r Sgwâr i drafod syniad y prosiect. <i>A meeting to be arranged on 20/11/23 at 6.30pm-7.30pm with the residents of Pentre Isaf and the Square to discuss the idea of the project.</i></p> <p><u>3. Stondinau Beiciau / Bike Stands</u> Maent yn barod i'w gosod o amgylch y dref. <i>They are ready to be installed around town.</i></p> <p><u>5. Map o'r dref / Town Map –</u> Dyluniad drafft yn barod, ychydig o newidiadau i'w gwneud. Pawb yn gytûn ac yn hoffi'r dyluniad. <i>Draft design ready, few tweaks to do. All in agreement and like the design.</i></p> <p><u>Llyfryn Llwybrau Tregaron / Tregaron Trails booklet –</u> Ychydig o newidiadau i'w gwneud – Cyng Arwel Jones a Rhydian Wilson i arwain ar hwn. <i>Few tweaks to do – Cllr Arwel Jones &amp; Rhydian Wilson to lead on this.</i></p>				<p>Cyng/Cllr Arwel Jones &amp; Rhydian Wilson</p> <p>Cyng/Cllr Catherine Hughes</p> <p>Cyng/Cllr Arwel Jones &amp; Rhydian Wilson</p>
13.	<b>CEISIADAU CYNLLUNIO / PLANNING APPLICATIONS</b> Dim i'w gofnodi <i>Nothing to report</i>			
14.	<b>CANIATAD CYNLLUNIO / PLANNING APPROVED</b> Dim i'w gofnodi. <i>Nothing to report.</i>			
	<p>Cafwyd trafodaeth ynglŷn â chynllunio a'r rheolau ynglŷn ag ymestyn eiddo – faint allwch chi ei wneud heb ganiatâd. Gan fod nifer o estyniadau wedi eu gwneud ar eiddo yn y dref yn ddiweddar ac nid oes unrhyw geisiadau cynllunio wedi dod drwedd trwy CSC. Cyng Ifan Davies i wirio a rhoi adborth.</p> <p><i>A discussion was held around planning and the rules regarding extending properties - how much can you do without permission. As several extensions have been done on properties in the town recently and no planning applications have come through via CCC. Cllr Ifan Davies to check and feedback.</i></p>			Cyng/Cllr Ifan Davies
15.	<b>UN LLAIS CYMRU / ONE VOICE WALES</b> Ebyst wrth Un Llais Cymru – wedi cael eu danfon ymlaen at y Cynghorwyr cyn y cyfarfod. <i>Emails from One Voice Wales Ward - forwarded to Councillors prior to meeting.</i>			

16.	<p><b>PROSIECT CYLCH CARON / CYLCH CARON PROJECT</b>          Cyng Catherine Hughes i gysylltu â N.Lewis, Cyngor Sir Ceredigion am ddiweddariad.  <i>Cllr Catherine Hughes to contact N.Lewis, Ceredigion County Council for an update.</i></p>	
17.	<p><b>GOHEBIAETH / CORRESPONDENCE</b></p> <p>17.1          Panel Annibynnol Cymru ar Gydnyddiaeth Ariannol – Datganiad o ffurflenni taliadau ar gyfer 2022/2023 – wedi'i gyflwyno.  <i>Independent Remuneration Panel for Wales – Statement of payment returns for 2022/2023 – submitted.</i></p> <p>17.2          Diolch am 20 – Newyddion mis Awst 2023 / <i>Thanks for 20 – News August 2023</i></p> <p>17.3          Ymholiad gan 2 breswlydd gyda diddordeb mewn ymuno â'r Cyngor Tref - Clerc i gysylltu a gofyn iddynt ysgrifennu yn ysgrifenedig pam hoffent ymuno ac os yn bosib gwneud hynny yn ddwyieithog.  <i>Enquiry from 2 residents, interested in joining the Town Council - Clerk to contact and ask them to put in writing why they would like to join and if possible, to do it bilingually.</i></p> <p>17.4          History Points – Hanes sgwar Tregaron ar 'QR code' / <i>History of Tregaron square on QR codes.</i></p> <p>17.5          Ebost wrth Cllr G Holloway, cynrychiolydd Un Llais Cymru fel cynrychiolydd i Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion ar gyfer Cyngorau Tref a Chymuned – eisiau barn am y BGC er mwyn gallu nodi themâu posibl.   <i>Email from Cllr G Holloway, One Voice Wales representative as a representative to the Ceredigion Public Services Board for Town and Community Councils - wants an opinion about the PSB so that possible themes can be identified.</i></p> <p>17.6          Sesiwn Rhoi Gwaed – Tregaron / <i>Blood Donation Session – Tregaron</i></p> <p>17.7          Clwb Rygbi Tregaron – gratin tu allan yn llanw da dwr ac yn gorlifo - Clerc wedi ymateb - bydd rhaid iddynt gysylltu a CLIC, CSC.  <i>Tregaron Rugby Club – drain outside fills with water and overflows - Clerk has responded - they will have to contact CLIC, CSC.</i></p> <p>17.8          E-bost drwy'r wefan – gwybodaeth am goeden deuluol  <i>Email via the website – family tree information</i></p> <p>17.9          Gwahoddiad i Uwchgynhadledd Canol y Dref: Dyfodol Rhuthun '23 / <i>Invitation to Town Centre Summit: Ruthin Future '23</i></p>	Clerc / Clerk

	<p>17.10 Ystadau Cymru – Concrit Awyredig Awtoclafiedig Cyfnerth (RAAC) / <i>Reinforced Autoclaved Aerated Concrete</i></p> <p>17.11 Ymgynhoriad Safle Ysbyty Newydd – Adroddiad Adborth / <i>New Hospital Site Consultation – Feedback Report</i></p> <p>17.12 CFFG: Gwersi a Ddysgwyd / <i>BCW:Lessons Learned</i></p> <p>17.13 Cylchlythyr yr Hydref – Partneriaeth Bwyd Lleol Sir Benfro <i>Autumn Newsletter – Pembrokeshire Local Food Partnership</i></p> <p>17.14 Diolch am y cymorth ariannol / <i>Thanks for financial contribution –</i> Ganolfan Deulu Tregaron Carnifal Tregaron Helfa Gogerddan Tregaroc Canolfan y Barcud Undeb y Mamau St.Caron Clwn Trotian Tregaron</p> <p>17.15 Cymorth Ariannol / <i>Financial Assistance request –</i> Urdd Ceredigion Celebral Palsy Cymru</p>	
18.	<p><b>UNRHYW FATER ARALL / ANY OTHER BUSINESS</b></p> <p>18.1 – Baneri – Cyng Dafydd Richards i drefnu i'r baneri gael eu tynnu i lawr a'u storio yn y sied. <i>Bunting / banners – Cllr Dafydd Richards to arrange for the banners to be taken down and stored in the shed.</i></p> <p>18.2 – Gwybodaeth WiFi y dref – angen dosbarthu y wybodaeth o amgylch busnesau dref. Cyng. Rhian Jones i ofyn i C.Evans i helpu. <i>Town WiFi information – need to distribute the information around town businesses. Cllr. Rhian Jones to ask C.Evans to help.</i></p> <p>18.3 – Llythyr Cered – Prosiect Peilot Croeso i Geredigion – am ddod i siarad yn cyfarfod nesaf. Clerc i gyfarfod mis Hydref, i ddechrau am 7pm. <i>Cered Letter - Pilot Project Welcome to Ceredigion – wants to attend next meeting. Clerk to invite them to the October meeting, to start at 7pm.</i></p> <p>18.4 –</p>	<p>Cyng / Cllr Dafydd Richards</p> <p>Cyng / Cllr Rhian Jones</p> <p>Clerc / Clerk</p>



	<p>E-bost oddi wrth Gavin Jones, Rheolwr Ymgysylltu Gwledig, Opereach - eisiau mynychu cyfarfod i gyflwyno gwybodaeth ar brosiect ffeibr arfaethedig ar gyfer Tregaron.</p> <p><i>Email from Gavin Jones, Rural Engagement Manager, Opereach – wants to attend a meeting to present information on proposed community funded fibre project for Tregaron.</i></p> <p>18.5 – Dathliadau Gwyl Dewi / <i>St.David’s Day Celebration</i> Pawb yn gytûn i gynnal dathliad tebyg i'r llynedd. Clerc i gysylltu â YHR i drefnu cyfarfod i drafod y trefniadau.</p> <p><i>Everyone in agreement to hold a similar celebration as last year. Clerk to contact YHR to arrange a meeting to discuss the arrangements.</i></p> <p>18.6 – Cyng / Cllr Catherine Hughes – Mae cadwyn ddiogelwch mawr o amgylch postyn lamp ac ar y palmant yn y maes parcio - mae beic modur wedi'i gloi iddo ar y palmant yn achlysurol - gan rwystro'r cyhoedd sy'n defnyddio'r palmant. Clerc i gysylltu â CLIC.</p> <p><i>There is a large security chain is around a lamp post and on the pavement at the car park - there is a motorbike occasionally locked to it on the pavement - obstructing the public that use the pavement. Clerk to contact CLIC.</i></p>	<p>Clerc / Clerk</p> <p>Clerc / Clerk</p>
19.	<p>Bydd y cyfarfod misol nesaf yn cael ei gynnal nos Lun Medi 16eg 2023 am 7.00pm. Cynhelir y cyfarfod yn Neuadd Goffa Tregaron.</p> <p><i>The next monthly meeting will be held on Monday 16<sup>th</sup> October 2023 at 7.00pm. It will be held at Tregaron Memorial Hall.</i></p>	
20.	<p>Terfynwyd y cyfarfod / <i>Meeting was closed</i></p>	